**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ein Cyf: AG/DP/SB

22 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Ramsay

**Gwasanaethau Gwybodeg Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Tachwedd.

Rwyf yn falch bod y Pwyllgor wedi nodi'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran bwrw ymlaen â'i argymhellion. Rwyf hefyd yn falch eich bod yn cefnogi ein dull o sefydlu'r System Cyfrifon Iechyd (SHA) newydd, gan gofio am yr amserlen.

Cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y meysydd a ganlyn:

- Rhannu manyleb y swydd ar gyfer y Prif Swyddog Digidol ar ôl ei gwblhau, a rhoi gwybod am yr ymgeisydd llwyddiannus ar ôl iddo gael ei benodi
- Edrych ar argaeledd Fy Iechyd Ar-lein pan fydd practisau meddygon teulu yn uno
- Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith caffael ar gyfer systemau gwybodeg meddygon teulu, a hynny ar ôl i'r contract gael ei ganslo yn ddiweddar

**Prif Swyddog Digidol Cymru**

Mae'r gwaith o fwrw ymlaen â hysbysebu swydd y Prif Swyddog Digidol newydd yn mynd rhagddo. Yn y Pwyllgor, nodais fod y gwaith o gwblhau'r broses hon wedi dechrau a fy mod yn gobeithio y bydd y broses recriwtio wedi dod i ben erbyn y gwanwyn. Nid wyf yn gallu rhannu disgrifiad swydd drafft y cleient â'r Pwyllgor gan fod fy nhîm wrthi'n gweithio ar broses recriwtio a gwerthuso'r GIG i sicrhau bod y disgrifiad swydd yn barod ar gyfer

hysbysebu yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, byddaf yn trefnu i roi'r fersiwn gyhoeddedig derfynol i'r Pwyllgor.

Pan oeddwn gerbron y Pwyllgor, fel y cofiwch, nodais bwysigrwydd sicrhau y gallwn ddenu'r unigolyn cywir sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol. Mae'n bosibl bod y Pwyllgor wedi gweld cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref ynghylch penodi Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r penodiad hwn hefyd i fod yn ei le erbyn y gwanwyn. Mae'r penodiadau hyn yn allweddol ar gyfer cefnogi ein trawsnewidiad digidol ar draws y sector cyhoeddus. I sicrhau bod ein hymdrech recriwtio yn denu ymgeiswyr cadarn ar gyfer y ddwy rôl, rwyf wedi gofyn i fy nhîm weithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, i sicrhau cysondeb rhwng y ddwy broses recriwtio. Ar ôl i'r broses o recriwtio Prif Swyddog Digidol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei chwblhau, byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei chanlyniad.

**Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am waith caffael y system gwybodeg meddygon teulu ar ôl i'r contract gael ei ganslo yn ddiweddar; ac edrych ar argaeledd Fy Iechyd Ar-lein pan fydd practisau meddygon teulu yn uno.**

Yn wreiddiol, 5 mlynedd oedd hyd y contract ar gyfer darparu systemau clinigol i bractisau meddygon teulu Llywodraeth Cymru o fis Ionawr 2019 ymlaen, gyda'r opsiwn o ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall. Mae'r penderfyniad i derfynu un o'r darparwyr yn golygu mai un darparwr arall sydd ar ôl ar y fframwaith. Yng ngoleuni hyn, bydd cyfnod adolygu â rhanddeiliaid meddygon teulu yn cael ei gynnal i bennu'r opsiynau posibl ar gyfer bwrw ymlaen. Mae disgwyl i'r adolygiad hwn ddirwyn i ben ym mis Ionawr 2020 er mwyn gallu asesu'n llawn yr opsiynau sydd gan GIG Cymru ar gyfer parhau i gynnig system glinigol i bractisau meddygon teulu. Yn dilyn yr adolygiad hwn â rhanddeiliaid, byddwn yn cytuno ar gam nesaf y strategaeth gaffael.

Pan fydd dau bractis sy'n defnyddio systemau clinigol gwahanol yn uno, gall hynny achosi problem i gleifion. Nid problem dechnegol yw hon. Pan fydd dau bractis yn newid i ddefnyddio un system glinigol, ar hyn o bryd, golyga hyn bod rhaid i gleifion y practis sydd wedi uno ailgofrestru i ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein pan fyddant yn symud i system newydd. Rwyf wedi gofyn i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru edrych ar ffyrdd o hwyluso'r broses hon i gleifion.

Rwyf wedi nodi y byddech yn gwerthfawrogi cael diweddariadau rheolaidd wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, yn enwedig ynghylch y ffordd y bydd rolau'r Prif Swyddog Digidol, y Prif Swyddog Gwybodaeth a'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol yn cyd-fynd â'i gilydd. Nodwyd hefyd eich bod am gael diweddariad manwl ar y gwaith o weithredu gweddill yr argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor erbyn 31 Hydref 2020.

Yr eiddoch yn gywir

**Dr Andrew Goodall CBE**